**BEDWYR LEWIS JONES yn datrys dirgelwch**

# CYFRES YR ENFYS

YN EISTEDDFOD Genedlaethol y Barri yn 1920 cynigiwyd gwobr o £25 am "gyfrol newydd wreiddiol yn Gymraeg mewn rhyddiaith neu farddoniaeth . . . cymwys i'w chyhoeddi yng Nghyfres yr Enfys". Roedd y wobr yn rhodd gan Gyhoeddwyr Cyfres yr Enfys, a golygyddion Cyfres yr Enfys oedd y beirniaid.

Cynan a enillodd a hynny gyda chasgliad o gerddi rhyfel dan y teitl 'Telyn y Nos', ac ychydig dros flwyddyn yn ddiweddarach fe gyhoeddwyd y casgliad yn llyfr. Ar frig yr wyneb-ddalen yn hwnnw, ar y chwith uwchben y teitl **Telyn y Nos**, fe nodwyd mai dyma 'Gyfres yr Enfys IV'.

Ond beth oedd Cyfres yr Enfys, pwy oedd ei golygyddion, a pha gyfrolau oedd rhifau I, II a III? Roedd gofyn y cwestiynau hyn yn haws na chael ateb iddynt. Yn ofer y chwiliais yn y catalogau a'r llyfryddiaethau amlwg; 'doedd dim sôn am hysbysebu'r gyfres yn y cylchgronau Cymraeg chwaith. Ac yna ar ddamwain dyma gael a geisiwn.

Trewais ar ohebiaeth biwis yng ngholofnau'r **Brython** yn Chwefror a Mawrth 1922 ynghylch **Telyn y Nos**, – rhyw Barchedig W A Lewis wedi prynu'r gyfrol am dri a chwech ac yn hanner dannod nad oedd wedi cael gwerth ei bres. Wrth ddweud ei gŵyn, fe gyfieria'r llythyrwr at ddwy gyfrol gynharach yn yr un gyfres oedd yn dipyn gwell bargen, sef **Cerddi'r Bugail a Telyn y Dydd.**

Yn ôl yn fy stafell yn y Coleg, cydiais mewn copi o **Cerddi'r Bugail**, yr argraffiad cyntaf, oddi ar y silff, a'i agor. Syrthiodd dalen rydd ohono. Prin y gallwn goelio fy llygaid. Taflen yn hysbysebu Cyfres yr Enfys ydoedd.

* * *

Y BWRIAD yn ôl y daflen oedd "cyhoeddi cyfres o lyfrau Cymraeg newyddion o ddiddordeb cyffredinol a gwerth llenyddol uchel, wedi eu hargraffu mewn llythyren brydferth ar bapur da a'u rhwymo'n ddestlus. Gwerthir hwy am y pris isaf yn bosibl yn nrudaniaeth yr amseroedd enbyd hyn. Gobeithir medru harddu'r cyfrolau â darluniau gan rai o brif feistri'r gelfyddyd."

Enw cwmni William Lewis, Caerdydd oedd ar waelod y ddalen. Hwy oedd yr argraffwyr. 'Doedd dim sôn am gyhoeddwyr na dyddiad. Ond fe gesglais wedyn mai Thomas Jones a Silyn a chriw'r **Welsh Outlook** yn y Barri oedd tu ôl i'r fenter ac mai rywdro tua dechrau 1918 oedd hi.

Ar y daflen disgrifid dau lyfr a oedd "eisoes yn barod", sef **Cerddi'r Bugail** a **Telyn y Dydd.** Yna roedd sôn am ddwy gyfrol arall y bwriedid eu cyhoeddi "ar fyrder", – nofel 'Y Bugail Geifr" gan Lydäwr o'r enw Emile Souvestre wedi ei throsi o'r Ffrangeg i'r Gymraeg gan Silyn, a chasgliad o storïau i blant "o lenyddiaeth amryw genhedloedd wedi eu trefnu yn Gymraeg gan William Rowlands, MA".

Fe gyhoeddwyd **Cerddi'r Bugail: Cyfrol Goffa Hedd Wyn** a **Telyn y Dydd** yn 1918, y ddwy wedi eu hargraffu'n lanwaith yng ngwasg William Lewis a'u rhwymo'n ddestlus mewn cloriau llwyd golau a meingefn llwyd tywyll, – yn ddwy gyfrol unffurf hardd a syml, ond heb air o sôn o gwbwl ynddynt am Gyfres yr Enfys, hyd y sylwais i.

Bu saib wedyn, ac yna yn 1921 mewn diwyg tebyg, eto o wasg William Lewis, fe ymddangosodd **Tir y Dyneddion: Stori am Dylwyth Teg** gan E Tegla Davies. Ni sonnir am Gyfres yr Enfys yn hon chwaith, ond hi oedd y drydedd yng ngolwg y golygyddion. Fe'i dilynwyd yn nes at ddiwedd 1921 gan **Telyn y Nos.**

Yr un wasg a argraffodd hon hithau, yn yr un diwyg a theip â **Cherddi'r Bugail** a **Thelyn y Dydd,** ond erbyn hyn ar waelod y wyneb-ddalen fel enwir Hughes a'i Fab, Wrecsam yn ogystal â William Lewis, Caerdydd fel cyhoeddwyr. Ac yna, ar ôl pedair cyfrol, daeth Cyfres yr Enfys i ben. Hughes a'i Fab a gyhoeddodd **Bugail Geifr Lorraine** R Silyn Roberts, mewn diwyg ychydig bach yn wahanol, yn 1925.

* * *

OND MAE hi'n hen bryd troi'n ôl at Cynan a'i 'Delyn y Nos'. Enillodd ei gasgliad ef o gerddi rhyfel yn y Barri yn Awst 1920 ac aeth y llawysgrif i ddwylo Silyn, cadeirydd Pwyllgor Llenyddiaeth yr Eisteddfod ac un o gyhoeddwyr Cyfres yr Enfys. Dim ond mater o drefnu'r argraffu oedd hi wedyn. Ond yr oedd un anhawster.

Er mor dderbyniol o newydd oedd safbwynt ac arddull Cynan yn ei gerddi, braidd yn fyr oedd y casgliad ar gyfer cyfrol, a gofynnodd Silyn i Cynan am ragor o'i waith diweddaraf i'w ychwanegu ati. "Nid oes gennyf ragor," meddai Cynan. "Ni fûm erioed mor *barren*. A oes modd barddoni a bugeilio eglwys tybed?" Ac yna trôdd i sôn am gerdd yn dwyn y teitl 'Trannoeth y Drin'.

Ei amcan yn hon, meddai, oedd "sgrifennu darn o Realism noeth i argyhoeddi y bobl sydd dda ganddynt ryfel ac hefyd i agor llygaid y bobl sy'n synnu na ddaeth y bechgyn adref o Ffrainc fel saint."

Ddiwedd Tachwedd 1920 y dywedodd Cynan hyn. Ym Mawrth 1921 sgrifennodd eto at Silyn i ofyn am y copi o 'Trannoeth y Drin' yn ôl. Roedd arno ei eisiau ar gyfer pryddest ar 'Fab y Bwthyn' yr oedd wrthi'n ei chyfansoddi.

Ar ddiwedd y llythyr cynigiodd fargen, – rhowch chi 'Trannoeth y Drin' yn ôl ac yn gyfnewid fe gewch 'Mab y Bwthyn' yn gyfan, ar yr amod na chyhoeddir 'Telyn y Nos' yn llyfr tan ar ôl Eisteddfod Caernarfon.

* * *

DERBYNIODD Silyn y cynnig. Ym Mai 1921 anfonodd Cynan gopi o'i bryddest i Gaernarfon a chopi arall i Silyn i'w chynnwys yn 'Telyn y Nos' p'un a enillai yn yr Eisteddfod ai peidio.

---

*O dud 16*

Yr oedd D A Jones yn un o brif lysieuwyr y genedl ac yn awdurdod cydnabyddedig drwy Brydain ar fwsogl. Cafodd radd M Sc Prifysgol Cymru yn 1918 ac etholwyd ef yn aelod o'r Linnean Society yn 1925. Bu farw ym Mryste yn 1936 ac fe rannwyd ei gasgliad o blanhigion rhwng yr Amgueddfa Brydeinig ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

* * *

CEIR LLAWER hanesyn difyr o'r cyfnod hwn ynghylch cadw cyfrinachau am safleoedd newydd. Dyma un.

Yn 1887 ar Foel Hebog ger Beddgelert darganfu J Lloyd Williams y Llugwe Fawr (Trichomanes speciosum) mewn safle newydd. Yn ei lawenydd dywedodd wrth gyfaill wedi iddo gyrraedd yn ôl i'r Garn y noson honno, a chyhoeddwyd hyn yn un o'r cylchgronau llysieuol yn fuan wedyn. Gallwch ddychmygu siomiant yr athro ysgol ieuanc pan ddychwelodd i'r safle a chael y guddfan yn hollol wag.

I wneud y sefyllfa'n waeth bu'n rhaid iddo wedyn dorri'r newydd drwg i'w gyfeillion yn y maes llysieuol. Y ddamcaniaeth oedd iddo gael ei ddilyn i safle'r rhedyn ac i'r rheini gael eu dwyn gan rywun a fynnai elwa oddi wrthynt. Ond druan o'r rheibiwr! Ni wyddai fod yn angenrheidiol i'r math yma o redyn gael ei gadw mewn lle tywyll a llaith, a'r canlyniad fu i'r cyfan grebachu a marw cyn i'r rheibiwr gael yr un geiniog.

Ond nid dyna ddiwedd y stori. Ymhen pedair blynedd ar hugain wedi hynny, digwyddai J Lloyd Williams fod yng nghyffiniau Moel Hebog yng nghwmni nifer o lysieuwyr eraill, ac aeth i ymweld â'r hen safle o ran ymyrraeth, cyn i'r lleill gyrraedd yno. Er ei fawr syndod gwelodd fod y safle'n llawn o'r rhedyn unwaith eto, yn union fel yr oedd pan welodd hi gyntaf bron chwarter canrif ynghynt.

Aeth ar unwaith i gyfarfod ei gyfeillion ond ni ddatgelodd gyfrinach y safle i'r un ohonynt rhag ofn iddi gael ei rheibio am yr eildro.

Pan gyhoeddodd J E Griffith ei *"Flora of Anglesey and Carnarvonshire"* yn 1894 neu 95 pryderai gymaint am ddiogelwch y rhedynen hon fel nad enwodd hyd yn oed y mynydd lle tyfai rhag ofn i'r difäwyr ddod o hyd iddi, a chyn belled ag y gwn i ni ddaeth neb arall o hyd iddi wedyn nes i ŵr o Feddgelert ddod ar ei thraws yn ystod chwedegau'r ganrif hon wrth chwilota am wahanol fathau o fwsogl.

* * *

PERTHYNAI llysieuydd Cymreig arall i'r cyfnod hwn, sef y Parch Thomas Pritchard Edwards (Caerwyson) 1853-1922). Fel yr awgryma ei ffugenw, brodor o Gaerwys ydoedd ond bu'n weinidog am gyfnod yn ardal Ffestiniog. Roedd yn arbenigwr ar redyn brodorol ardaloedd Eryri ac ysgrifennodd amryw o ysgrifau difyr ar fyd natur i'r "Cymru" a'r "Rhedegydd".

Ni welais gyfeiriad ato yn y rhestr o gasglwyr yn y llyfr *'Welsh Ferns'*, a gwnaeth hyn i mi amau mai unigolyn ydoedd a gadwai pob darganfyddiad o bwys iddo ef ei hun, ond eto roedd yn *"Fellow of the Linnean Society"* – anrhydedd nid bychan, fel y gwyddys.

Mewn Arweinlyfr i Flaenau Ffestiniog, a gyhoeddwyd rhywbryd yn ystod ail ddegawd y ganrif hon, cyfrannodd restr helaeth o redyn brodorol a dyfai ym mhlwyf Ffestiniog. Mae'n ddiddorol darllen ei hanes yn chwilota am redyn prin ar fynyddoedd ac yng ngheunentydd y fro.

Un tro cafodd hyd i fath prin iawn ac wrth ymweld â'r safle am yr eildro dyma a ddywed. "Aethum yno drachefn, trwy gymeryd cwrs dieithr a chyfrwys, rhag y gallai fod rhywun yn fy nghwylio . . ."

Meddyliwch mewn difrif am weinidog parchus yn troedio'n llechwraidd dros y mynydd gan daflu ambell olwg dros ei ysgwydd rhag ofn fod rhyw heliwr rhedyn â'i lygaid arno.

* * *

DAETH terfyn ar y chwiw hel rhedyn. Ar ôl dyfodiad y camera bodlonai'r rhedynwyr ar gael ffotograff o'r trysor yn lle planhigyn marw. Datblygodd hefyd agwedd wahanol a newydd tuag at blanhigion, sef cadwraeth. Er mwyn adnabod planhigyn heddiw anogir y myfyriwr i fynd a'r llyfr at y planhigyn yn hytrach na'r planhigyn at y llyfr.

Mae'r rhedyn prin i'w gweld o hyd yn rhai o'u hen gynefin yn Eryri. Wrth sefyll uwch eu pen, daw rhyw wefr ryfedd o fwynhad i mi wrth ddwyn i gof fod mawrion fel J Lloyd Williams, J E Griffith, D A Jones a Chaerwyson wedi sefyll yn yr un fan yn union flynyddoedd lawer yn ôl.